



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Mai 2018

Annwyl Bennaeth,

Senedd Ieuenctid Cymru

Hoffwn roi gwybod i chi am y cam nesaf yn y daith tuag at sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru a sut y gallwch annog eich pobl ifanc i ymgysylltu o ddifrif â'r fenter newydd hon wrth i 2019 nodi 20 mlynedd ers sefydlu'r Cynulliad.

Er mwyn annog cymaint o bobl ifanc â phosibl i ymgysylltu â'r fenter newydd uchelgeisiol hon, a gaiff ei harwain gan Swyddogion Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Cynulliad, byddwn yn rhannu gwybodaeth am sut i gofrestru i bleidleisio a chanllawiau i ddarpar ymgeiswyr ar sut i sefyll yn yr etholiad rhwng mis Mai a mis Tachwedd, wyneb yn wyneb ac ar-lein, ar ei gwefannau www.seneddieunctid.cymru www.youthparliament.wales.

Y dyddiadau allweddol yw:

Lansio manylion Senedd Ieuenctid Cymru Gall pobl ifanc ddechrau cofrestru i bleidleisio drwy'r wefan: www.seneddieunctid.cymru	31 Mai 2018
Lansio enwebu'r ymgeiswyr	03-30 Medi 2018
Etholiadau cenedlaethol ar-lein	05-25 Tachwedd
Cyhoeddi'r aelodau	Rhagfyr 2018
Cyfarfod cenedlaethol cyntaf	22-24 Chwefror 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Buaswn yn ddiolchgar iawn pe gallech hyrwyddo'r cyfle hwn i'ch holl bobl ifanc (11-18 oed) - i gofrestru i bleidleisio, enwebu eu hunain fel ymgeiswyr a phleidleisio yn yr etholiadau ar-lein.

Byddai hyn yn sicr yn helpu i gynyddu diddordeb a chyfranogiad yn eich awdurdod lleol.

Sut y caiff Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru eu hethol, a phwy sy'n gymwys i gofrestru, pleidleisio, a sefyll i'w hethol?

Bydd 60 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn cynrychioli Senedd Ieuenctid Cymru, gyda 40 ohonynt yn cael eu hethol drwy system y Cyntaf i'r Felin, drwy system bleidleisio electronig ym mhob un o'r 40 etholaeth etholiadol yng Nghymru. Caiff 20 eu hethol gan sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod grwpiau amrywiol o bobl ifanc yn cael eu cynrychioli. Os hoffech ystyried gwneud cais i fod yn bartner swyddogol Senedd Ieuenctid Cymru, darllenwch y ddogfen sydd ynghlwm: *Canllawiau ar gyfer sefydliadau sy'n gwneud cais i ddod yn bartneriaid Senedd Ieuenctid Cymru.*

Rhaid i'r rhai sydd am bleidleisio a sefyll fel ymgeiswyr fod yn 11 oed erbyn neu ar 31 Awst 2018 a hyd at 18 oed yn ystod etholiadau 05-25 Tachwedd 2018. Gall y bobl ifanc hynny sydd am gofrestru i bleidleisio wneud hynny drwy ddilyn y camau syml a amlinellir ar-lein: www.seneddieuenctid.cymru. Bydd angen iddynt roi cyfeiriad e-bost dilys i gofrestru ac yna byddant yn cael rhif pin i allu pleidleisio dros eu Haelodau Lleol o Senedd Ieuenctid Cymru.

Efallai yr hoffech ystyried gwneud hyn yn rhan o unrhyw weithgareddau rydych yn eu cynllunio gyda'ch pobl ifanc a'u hannog i gymryd rhan yn yr etholiadau ar-lein cyntaf erioed ym mis Tachwedd.

Diogelu data

Bydd data personol pawb sy'n cymryd rhan weithredol ar-lein yn cael eu gwarchod yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data Gyffredinol (GDPR) o 25 Mai 2018.

Cymryd rhan

Os hoffech drefnu ymweliad â'r Cynulliad neu i ni ymweld â chi a chyflwyno gwybodaeth am y cyfle hwn, cysylltwch â 0300 200 6565. I ofyn am ddeunyddiau copi caled, gan gynnwys posteri, sleidiau Power Point ac ati, anfonwch e-bost at helo@seneddieuenctid.cymru



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

I gael canllawiau manwl ar gyfer athrawon / gweithwyr ieuenctid / gweithwyr proffesiynol, dysgwyr a rhieni, ewch i'r tudalennau canllawiau ar-lein. www.seneddieuenctid.cymru www.youthparliament.wales.

I gael cymorth neu ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at helo@seneddieuenctid.cymru neu ewch i wefan y senedd ieuenctid: www.seneddieuenctid.cymru. Dilynwch ni hefyd ar twitter @seneddieuenctid @welshyouthparl

Yn gywir,

Elin Jones AC

Y Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English